UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

www.ucac.cymru

# Cynlluniau addysg personol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal

# Canllawiau drafft i ymarferwyr

## Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Eich enw: Iona A. Davies

Sefydliad (os yw'n berthnasol): UCAC

e-bost/rhif ffôn: iona@ucac.cymru

Eich cyfeiriad: Swyddfa UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2EU

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn 01 Rhagfyr 2025 i:

Cyflawniad – Y Gangen Tegwch mewn Addysg
Is-adran Tegwch mewn Addysg
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu gellir cwblhau'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i'r cyfeiriad isod:

e-bost: TegwchMewnAddysg@llyw.cymru

**Cwestiwn 1** – Ydych chi'n cytuno y bydd y cyngor a roddir yn y canllawiau ar gynlluniau addysg personol (CAPau) yn cefnogi awdurdodau lleol, ysgolion a lleoliadau i sicrhau bod y broses gynllun addysg personol (CAP) yn fwy ystyrlon ac effeithiol i blant sy'n derbyn gofal?

| Cytuno | ✓ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 2** – Ydych chi'n cytuno bod y canllawiau yn ymdrin yn ddigonol â phopeth sydd ei angen i gefnogi awdurdodau lleol, ysgolion a lleoliadau i sicrhau bod CAPau yn fwy ystyrlon ac effeithiol i blant sy'n derbyn gofal.

| Cytuno | ☐ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ✓ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| **Mae'r egwyddorion y tu ôl i'r pwyntiau a godir yn rhai clodwiw, ond mae angen sicrhau bod yr holl bwyntiau a nodir yn y ddogfen yn cael eu cyflwyno gyda chysondeb ar draws pob awdurdod a phob ysgol yng Nghymru.** |

**Cwestiwn 3** – Os ydych yn anghytuno â'r datganiad yng Nghwestiwn 2, beth arall y dylid ei gynnwys yn y canllawiau?

**Sylwadau**

| |
|---|
| **Teimlaf fod angen mwy o gyfarwyddyd ynghylch hyfforddiant i'r athro dynodedig sydd â gofal penodol am unigolion mewn gofal. Rhaid sicrhau hefyd fod amser yn cael ei neilltuo i athrawon sydd yn gyfrifol am blant mewn gofal. Ni ellir disgwyl i staff mewn ysgolion roi'r sylw priodol i blant mewn gofal os nad ydynt yn derbyn yr hyfforddiant na'r amser sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu rolau.** |

**Cwestiwn 4** – Ydych chi'n cytuno bod y canllawiau yn rhoi digon o gyngor i awdurdodau lleol, ysgolion a lleoliadau ar sicrhau bod y broses CAP yn canolbwyntio ar y plentyn?

| Cytuno | ✓ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

**Mae'r ddogfen yn pwysleisio pa mor bwysig yw canolbwyntio ar y plentyn. Yr hyn sy'n bwysig nawr yw sicrhau bod yr hyn a nodir yn y ddogfen yn cael ei weithredu ac yn cael ei fonitro'n effeithiol.**

**Cwestiwn 5** – A oes unrhyw ffynonellau cymorth neu adnoddau eraill y gallai fod yn ddefnyddiol tynnu sylw atynt yn y canllawiau?

**Sylwadau**

**Hoffwn pe bai pob sylw'n cael ei roi i ddod o hyd i ddogfennau a llenyddiaeth briodol yn yr iaith Gymraeg. Mae tuedd i ysgrifennu'r dogfennau hyn yn Saesneg a'u cyfieithu, gan gyfeirio'n unig at fersiynau Cymraeg o ddogfennau Saesneg. Os oes llyfrau a llenyddiaeth ar y pynciau hyn yn y Gymraeg, mae'n bwysig bod sylw'n cael ei roi iddynt. Rydym yn cydnabod mai prin yw deunyddiau Cymraeg yn aml, ond nid ydym yn argyhoeddig bod yna ymdrech i chwilio amdanynt chwaith.**

**Cwestiwn 6** – Yn eich barn chi, beth fyddai effeithiau tebygol y canllawiau ar y Gymraeg? Mae diddordeb penodol gyda ni mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?
Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau andwyol?

**Sylwadau ategol**

**Yn anffodus, nid wyf wedi yn gweld unrhyw gyfeiriad yn y ddogfen at bwysigrwydd cyflawni'r gofynion drwy gyfrwng y Gymraeg. A roddir pob cyfle i unigolion gael y ddarpariaeth briodol a'r cyfarfodydd priodol drwy gyfrwng y Gymraeg? A yw'r dogfennau yn cael eu cwblhau drwy gyfrwng y Gymraeg, os mai dyna yw dymuniad yr unigolyn?**

**Cwestiwn 7** – Yn eich barn chi, a ellid llunio neu newid y canllawiau er mwyn:

- sicrhau effeithiau cadarnhaol neu fwy cadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu
- lliniaru unrhyw effeithiau negyddol ar y defnydd o'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

**Sylwadau ategol**

**Mae'n bwysig y sicrheir bod pob agwedd o'r ddarpariaeth y cyfeirir ati yn y dogfennau hyn ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. Ni ddylai'r sawl sy'n dymuno trafod yn y**

**Gymraeg gael eu gorfodi i drafod yn Saesneg neu i drafod yn Gymraeg drwy gyfrwng cyfieithydd. Fel y nodir yn y ddogfen, mae'r broses o gael eich rhoi mewn gofal yn fater trawmatig ac felly dylid gwneud pob proses sy'n gysylltiedig â bod mewn gofal yn broses mor hawdd â phosibl ac ni ddylai'r plentyn mewn gofal orfod brwydro am hawliau sylfaenol. Mae trafod drwy gyfrwng y Gymraeg yn hollbwysig yn hyn o beth.**

**Cwestiwn 8** – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech dynnu ein sylw at unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, gallwch ddefnyddio'r blwch isod i wneud hynny:

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: ☐